

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Newid Hinsawdd ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023. Rydw i'n fodlon bod y buddion yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
13 Mehefin 2023

RHAN 1

Pennod 1 - Disgrifiad

1. Mae Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023 yn cefnogi'r broses o weithredu'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) ar gyfer Pecynwaith. Bydd y cynllun EPR ar gyfer pecynwaith (*packaging*) yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr gymryd cyfrifoldeb am effaith amgylcheddol y pecynwaith y maent yn ei roi ar y farchnad drwy eu gorfodi i dalu am gostau casglu a gwaredu'r pecynwaith hwn pan fydd yn dod yn wastraff. Bydd hyn yn cynnig cymhelliant ariannol i gynhyrchwyr leihau faint o becynwaith y maent yn ei roi ar y farchnad ac i wella'r graddau y gellir ailgylchu pecynwaith.
2. Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr pecynwaith gasglu data ac, mewn rhai achosion, adrodd am ddata, ar faint o becynwaith a'r math o becynwaith y maent yn ei roi ar y farchnad. Mae angen y data hyn er mwyn cyfrifo'r ffioedd y bydd angen i gynhyrchwyr eu talu o dan y cynllun EPR ar gyfer pecynwaith. Y bwriad yw rhoi'r gofynion hyn ar waith am gyfnod byr, ac ar ôl hynny byddant yn cael eu dirymu a'u disodli gan y rheoliadau i sefydlu'r cynllun EPR ar gyfer pecynwaith, a fydd yn cynnwys y darpariaethau cyfatebol ar gyfer casglu ac adrodd am ddata.

Pennod 2 - Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

3. Dim.

Pennod 3 - Cefndir deddfwriaethol

4. Gwneir y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol wrth arfer y pwerau a roddir gan adran 2 o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 a pharagraffau 11 ac 20 o Atodlen 1 iddi.
5. Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol gan Neddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2005 ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
6. O dan Reoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007, mae'n ofynnol i gynhyrchwyr sydd â throsiant blynyddol o £2 filiwn sy'n trin 50 tonnelli a mwy o becynwaith bob blwyddyn adrodd am ddata ar faint o becynwaith y maent yn ei roi ar y farchnad.
7. Bydd y rheoliadau newydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr gasglu data ac adrodd ar faint o becynwaith a'r math o becynwaith y maent yn ei gyflenwi a byddant yn cynyddu pa mor aml y maent yn adrodd ar hyn o unwaith y flwyddyn i ddwywaith y flwyddyn. Yn ogystal, bydd yn creu trothwy 'de minimis' newydd, lle bydd gofyn i gynhyrchwyr sydd â throsiant

blynyddol o fwy na £1 miliwn sy'n trin mwy na 25 tonnall o becynwaith y flwyddyn (ond nad ydynt yn rhagori ar y trothwy "uchaf"), gasglu'r data hyn ond nid adrodd amdanynt.

8. Mae hwn yn gynllun cyfunol ledled y DU, ond mae'r pwerau a roddir gan Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 wedi'u datganoli i bob gweinyddiaeth ac nid ydynt yn caniatáu gwneud rheoliadau DU-gyfan. Mae offerynnau tebyg felly wedi cael eu gwneud felly mewn perthynas â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn y drefn honno.

Pennod 4 – Diben ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth

9. Y bwriad yw cyflwyno'r rhan fwyaf o'r cynllun EPR ar gyfer pecynwaith yn y DU yn 2024 drwy Reoliadau a wneir o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2021 y DU. Bydd EPR yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr gymryd cyfrifoldeb am effaith y pecynwaith y maent yn ei gyflenwi drwy eu gorfodi i dalu am gostau casglu a gwaredu'r pecynwaith hwn pan fydd yn dod yn wastraff. Bydd hyn yn cynnig cymhelliant ariannol i gynhyrchwyr ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon drwy leihau faint o becynwaith y maent yn ei gyflenwi ac i wella'r graddau y gellir ailgylchu eu pecynwaith. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi'r newid i economi fwy cylchol gan leihau allyriadau ac effeithiau eraill ar yr amgylchedd ar yr un pryd.
10. Bydd gofyn i gynhyrchwyr dalu ffi EPR i awdurdodau lleol, drwy Weinyddwr Cynllun, yn seiliedig ar faint o becynwaith a gyflenwir. Diben y Rheoliadau hyn yw cyflwyno'r gofynion data cyn y cynllun, a fydd yn cael ei sefydlu gan y prif reoliadau'n ymwneud â'r EPR ar gyfer pecynwaith maes o law.
11. Bydd y rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr sydd â throsiant blynyddol o £1 miliwn sy'n trin mwy na 25 tonnall o becynwaith bob blwyddyn ("*cynhyrchwyr bach*"), gasglu data ar faint o becynwaith a'r math o becynwaith y maent yn ei roi ar y farchnad. Bydd gofyn i gynhyrchwyr sydd â throsiant blynyddol o £2 filiwn sy'n trin mwy na 50 tonnall o becynwaith ("*cynhyrchwyr mawr*") hefyd adrodd am ddata ar faint o becynwaith a'r math o becynwaith y maent yn ei gyflenwi.
12. Mae darpariaethau Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr mawr adrodd ar y data y maent wedi'i gasglu ar gyfer y cyfnod:
 - a. yn dechrau ar y diwrnod y daw'r rheoliadau hyn i rym ("*y dyddiad cychwyn*") ac yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2023, neu
 - b. os oes gan y cynhyrchwr ddata i'w adrodd am y cyfnod rhwng 1 Ionawr a'r dyddiad cychwyn, ar gyfer y cyfnod yn dechrau ar 1 Ionawr 2023 ac yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2023.
13. Bydd gofyn i gynhyrchwyr mawr gyflwyno'r adroddiad sy'n cynnwys y data hwn ar neu cyn 1 Ebrill 2024. Bydd gofyn i'r data hwn gyfrifo'r ffioedd EPR y bydd cynhyrchwyr yn eu talu ym mlwyddyn gyntaf y diwygiadau ac felly

mae'n rhan hanfodol o weithrediad cychwynnol y cynllun EPR ar gyfer pecynwaith a fydd yn dod i rym ar ôl cyflwyno'r prif reoliadau.

Pennod 5 – Ymgynghori

14. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol rhwng Rhagfyr 2019 ac Ebrill 2020 ar y Strategaeth Economi Gylchol - *Mwy nag Ailgyrchu*, a oedd yn gofyn am farn ar gynnwys y strategaeth, gan gynnwys yr ymrwymiad i EPR ar gyfer pecynwaith. Roedd EPR yn un o brif ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu hefyd ac yn gam gweithredu allweddol yn *Cymru Sero Net*.
15. Cynhaliwyd ymgynghoriad penodol ar gyflwyno EPR ar gyfer Pecynwaith yn y DU am 12 wythnos rhwng 18 Chwefror a 13 Mai 2019 hefyd. Cafodd ymgynghoriad ei gynnal ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.
16. Derbyniodd yr ymgynghoriad hwn 679 o ymatebion gan amrywiaeth eang o randdeiliaid. Ar y cyfan roedd yr ymatebion yn gefnogol i'r cynigion, gydag 80% o ymatebwyr yn cytuno â'r egwyddorion a gynigiwyd ar gyfer EPR ar gyfer pecynwaith ac 88% yn cytuno â chanlyniadau arfaethedig y system EPR. Cafodd y crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019 yn amlinellu'r bwriad i fwrw ymlaen â chyflwyno EPR ar gyfer pecynwaith.
17. Yna cynhaliwyd ymgynghoriad pellach ar EPR ar gyfer pecynwaith am 10 wythnos rhwng 24 Mawrth 2021 a 4 Mehefin 2021. Nod yr ymgynghoriad hwn oedd casglu barn ar y cynigion polisi manwl ar gyfer cyflwyno EPR ar gyfer pecynwaith. Cafodd yr ymgynghoriad hwn hefyd ei gynnal ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.
18. Derbyniodd yr ymgynghoriad 1,241 o ymatebion gan amrywiaeth eang o randdeiliaid. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ac ymateb cyfunol y Llywodraethau i ymgynghoriad 2021 ym mis Mawrth 2022. Amlinellodd yr ymateb hwn y cynigion i'w gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr adrodd am eu data pecynwaith ddwywaith y flwyddyn, ym mis Hydref ac ym mis Ebrill, gyda phob adroddiad yn cwmpasu cyfnod o chwe mis.
19. Oherwydd natur dechnegol yr elfen hon o'r diwygiadau i'r EPR ar gyfer pecynwaith, roedd yr ymgynghoriadau hyn yn canolbwyntio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y gadwyn gwerth pecynnu, gydag ymgysylltu a chyd-ddylunio helaeth yn parhau i ddigwydd gyda rhanddeiliaid ar draws y gadwyn gwerth pecynnu yn dilyn yr ymgynghoriad. Arweiniodd yr ymgynghoriad a'r ymgysylltu ehangach at wneud nifer o newidiadau i fireinio cynigion y polisi, er enghraifft, wrth ddatblygu'r cynigion i adennill costau deunyddiau pecynwaith a geir yn y ffrwd gwastraff masnachol.

RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Pennod 6 - Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Effaith

20. Cyhoeddwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer cyflwyno'r cynllun EPR ar gyfer pecynwaith ochr yn ochr ag ymateb cyfunol y Llywodraeth i ymgynghoriad 2021.
21. Y bwriad yw i'r cynllun EPR ar gyfer pecynwaith fod yn gynllun ar gyfer y DU gyfan. Bydd y rhan fwyaf o fusnesau sy'n gorfod ymrwymo yn gwmnïau sydd â'u pencadlys yn Lloegr ac sy'n gweithredu ledled y DU. Mae'r Asesiad felly wedi cael ei gynnal ar sail y DU gyfan ac nid oes angen un penodol i Gymru. Mae'r Asesiad yn nodi'r costau i fusnes o gydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan y cynllun. Mae'r Asesiad llawn ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1063483/epr-final-regulatory-impact-assessment-220323-cymraeg.pdf
22. Effaith y rheoliadau hyn ar fusnesau yw'r gofynion ychwanegol o ran casglu data ac adrodd am ddata. Amcangyfrifir y bydd cyflwyno trothwy de minimis newydd yn dod â 1,823 o fusnesau ychwanegol ledled y DU o dan gwmpas y rhwymedigaethau casglu data. Mae hyn yn cyfateb i tua 62 o fusnesau ychwanegol yng Nghymru, yn ychwanegol at y 250 o fusnesau yng Nghymru yr amcangyfrifir sy'n gorfod cydymffurfio â'r rhwymedigaethau eisoes. Nid oes effaith, neu effaith sylweddol, ar elusennau neu gyrff gwirfoddol.¹
23. Unig ddiben y rheoliadau hyn yw sicrhau y gellir casglu data ac adrodd am ddata sy'n angenrheidiol i gyfrifo ffioedd cynhyrchwyr cychwynnol ar gyfer y cynllun EPR ar gyfer pecynwaith.

Manteision y cynllun

24. Mae casglu ac adrodd am ddata ar becynwaith cynhyrchwyr o fis Gorffennaf i fis Rhagfyr 2023 yn hanfodol fel y gellir gweithredu'r cynllun wedyn a buddion cysylltiedig yr economi gyloch a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r Memorandwm Esboniadol hwn. Bydd yn sicrhau hefyd bod ffioedd cynhyrchwyr yn cael eu gosod yn briodol o dan y cynllun.
25. Bydd y cynllun yn arwain at fudd i'r sector cyhoeddus, gan y bydd cynhyrchwyr yn gwneud taliadau sy'n adlewyrchu gwir gostau rheoli gwastraff pecynwaith.

¹Mae amcangyfrifon Cymru yn seiliedig ar ddadansoddiad econometreg DEFRA sy'n darparu amrywiaeth o amcangyfrifon, lle mae'r ffigurau a gyflwynir yn cynrychioli'r amcangyfrif canolog. Mae cyfrifiadau busnes yn seiliedig ar gyfeiriad cofrestredig ac nid yw'n cyfrif canghennau unigol lle mae gan fusnes sawl lleoliad ledled y DU.

Rheoleiddio busnesau bach

26. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i rai gweithgareddau sy'n cael eu cynnal gan fusnesau bach sy'n gysylltiedig â phecynwaith.
27. Er mwyn lleihau effaith y gofynion ar fusnesau bach (sy'n cyflogi hyd at 50 o bobl), y dull a ddefnyddir yw cynnwys trothwy o fewn y rheoliadau i eithrio cynhyrchwyr nad ydynt yn trin mwy na 25 tonnell o becynwaith y flwyddyn ac sydd â throsiant blynyddol o £1 miliwn a mwy. Bydd cynhyrchwyr nad ydynt yn trin mwy na 50 tonnell o becynwaith y flwyddyn ac sydd â throsiant blynyddol o £2 filiwn a mwy yn cael eu heithrio o'r rhwymedigaethau adrodd ond bydd dal angen iddynt gasglu a chadw data. Mae'n ofynnol i'r cynhyrchwyr hyn gasglu a chadw'r data hwn gan y bydd yn ofynnol iddynt adrodd am y data hwn o dan y prif reoliadau pecynwaith EPR, a fydd yn dod i rym maes o law ac yn disodli'r rheoliadau hyn ar gyfer casglu ac adrodd am ddata.
28. Yn dilyn cyflwyno'r rhwymedigaethau adrodd hyn, cam nesaf y diwygiadau fydd codi ffioedd gan fusnesau y mae rhwymedigaeth arnynt i dalu'r costau sy'n codi o reoli pecynwaith gwastraff. Bydd rhaid i fusnesau sydd dros y trothwy uwch, trosiant o £2 miliwn a rhoi 50 tonnell o becynwaith ar y farchnad, dalu ffioedd i dalu'r costau gwaredu hyn. Yn ogystal â hyn, mae'n bwysig casglu data ar gyfanswm y pecynwaith a roddwyd ar y farchnad yn y DU, i asesu pa mor effeithiol yw'r diwygiadau hyn.
29. Bydd y rhwymedigaeth adrodd ehangach yn dechrau sicrhau bod y rhai sydd o dan y trothwy uwch yn cymryd rhan weithredol yn system y gadwyn gwerth pecynnu, gan gynyddu eu hymwybyddiaeth o effeithiau eu pecynwaith. Byddwn yn parhau i ddefnyddio ffioedd a rhwymedigaethau adrodd ar gyfer cynhyrchwyr tan 2026 o leiaf, pan fyddwn eu hadolygu. Bydd y data a gesglir gan y grŵp trothwy is yn darparu'r wybodaeth ychwanegol am faint o becynwaith a roddwyd ar y farchnad i arwain yr adolygiad yn 2026/27.

Costau casglu ac adrodd am ddata cynhyrchwyr

30. Mae'r darn canlynol o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu dadansoddiad o gostau cydymffurfio â gofynion adrodd am ddata o dan y cynllun i gynhyrchwyr sydd â rhwymedigaeth i gasglu ac adrodd am ddata.
31. Bydd cyflwyno a gweithredu EPR yn effeithiol yn dibynnu ar ddata a thystiolaeth a ddarperir gan gyfranogwyr ar draws y gadwyn gwerth pecynnu. Mae angen darparu adroddiadau priodol ar becynwaith a roddir ar y farchnad a thystiolaeth ar lif crynswth pecynwaith drwy'r system rheoli gwastraff i gefnogi a llywio'r gwaith o osod targedau, y ffioedd sydd i'w talu gan gynhyrchwyr, a'r taliadau a wneir am gostau darparu gwasanaethau rheoli gwastraff pecynwaith awdurdodau lleol.

32. Bydd gofyn i gynhyrchwyr gasglu ac adrodd am ddata ar lefel fanylach nag o dan y system bresennol, er mwyn llywio'n well y gost y byddant yn ei thalu a'r gwaith o osod cyfraddau ffioedd ar fathau unigol o becynwaith. O dan newidiadau i'r cynhyrchwyr sydd â rhwymedigaethau, mae disgwyl i fwy o becynwaith ddod o dan y rhwymedigaethau ac yna bydd angen adrodd arno. Bydd hyn yn darparu data o ansawdd gwell ar faint o becynwaith a'r mathau o becynwaith a roddir ar y farchnad a fydd yn helpu gwneuthurwyr polisi yn y dyfodol.
33. O dan newidiadau a gynigir i'r rheoliadau presennol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban a rheoliadau neu ofynion cyfatebol newydd yng Ngogledd Iwerddon, bydd angen i gyfleusterau deunyddiau (gorsafoedd trosglwyddo, gorsafoedd crynhoi, a chyfleusterau didoli) sy'n derbyn gwastraff sy'n cynnwys pecynwaith adrodd ar dunelledd a chyfansoddiad y gwastraff pecynwaith sy'n dod i law, yn cael ei drin/ei didoli, ac sy'n cael ei golli a/neu ei anfon i gyfleusterau eraill. Bydd gofyn iddynt hefyd samplu yn erbyn nifer uwch o gategoriâu o ddeunyddiau a gwneud hynny'n amlach er mwyn sicrhau bod data a adroddir o ansawdd digon uchel i gefnogi canlyniadau'r EPR, gan gynnwys taliadau cywir a lleihau'r risg o dwyll. Disgwylir i nifer y cyfleusterau y mae'r gofynion hyn yn berthnasol iddynt gynyddu.
34. Bydd gofynion adrodd, sy'n mynd y tu hwnt i'r rhai sydd eisoes yn ofynnol dan y Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith, yn berthnasol hefyd i ailbroseswyr ac allforwyr er mwyn gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau ac ansawdd gwahanol y deunydd ailgylchu sy'n cyrraedd a gadael eu cyfleusterau. Fodd bynnag, mae llawer o ailbroseswyr eisoes yn casglu'r wybodaeth hon ac yn ei defnyddio fel rhan o brosesau craidd eu busnes.
35. O dan y system bresennol, mae cynhyrchwyr yn gyffredinol yn llogi gwasanaethau cynlluniau cydymffurfio,² sy'n ysgwyddo eu rhwymedigaeth gyfreithiol i gyrraedd targedau ailgylchu. Mae cynlluniau cydymffurfio yn darparu gwasanaethau adrodd am ddata hefyd, lle maent yn cymryd data crai gan eu haelodau sy'n gynhyrchwyr ac yn gwneud yr holl gyfrifiadau, gwiriadau a fformatio sy'n angenrheidiol er mwyn adrodd am ddata 'rhoddwyd ar y farchnad' i'r rheoleiddiwr. Mae'n ofynnol i gynhyrchwyr adrodd ar ddata pecynwaith yn ôl y chwe phrif gategori o becynwaith.³
36. O dan y system ddiwygiedig, bydd yn parhau i fod yn ofynnol i gynhyrchwyr adrodd am ddata 'rhoddwyd ar y farchnad', fodd bynnag, bydd angen i'r rhai sydd â rhwymedigaeth i wneud taliadau Cost Net Lawn (FNC) ychwanegol i dalu am becynwaith aelwydydd ddarparu data llawer manylach. Bydd hyn yn sicrhau y gall Gweinyddwr y Cynllun gyfrifo'n gywir eu ffi FNC ychwanegol a chymhwyso'r gyfradd briodol o ffioedd wedi'u modiweiddio i fathau gwahanol o becynwaith. Felly, bydd nifer y categorïau o becynwaith y mae angen iddynt adrodd arnynt yn cynyddu'n sylweddol. Bydd cynhyrchwyr nad oes ond gofyn iddynt fodloni rhwymedigaethau ailgylchu, a'r rhai y mae'n ofynnol iddynt wneud taliad ychwanegol ar gyfer pecynwaith

² Er enghraifft, yn 2020 fe wnaeth 94% o gynhyrchwyr â rhwymedigaeth ddefnyddio cynllun cydymffurfio (<https://npwd.environmentagency.gov.uk/Public/PublicSummaryData.aspx>).

³ Plastig, Papur/Cerdyn, Alwminiwm, Dur, Gwydr, Pren

aelwydydd hefyd, yn gallu adrodd am ddata drwy'r un porth, ond, fel y nodwyd, bydd angen i'r rhai olaf adrodd am ddata manylach.

37. Bydd cynlluniau cydymffurfio yn dal i allu ymgymryd â'r rhwymedigaeth gyfreithiol i gyflawni rhwymedigaethau ailgylchu (a thystiolaeth o brynu gwasanaethau ailgylchu), gan gynnwys adrodd am ddata, ar ran cynhyrchwyr ond ni fydd ganddynt rôl statudol o ran cyflawni rhwymedigaethau ychwanegol o dan FNC. Efallai y bydd cynhyrchwyr y mae'n ofynnol iddynt dalu taliadau FNC yn dal i deimlo ei bod yn fuddiol talu am wasanaethau cynlluniau cydymffurfio i goladu eu data ar gyfer adrodd. Serch hynny, nhw fydd yn gyfrifol yn gyfreithiol o hyd am gywirdeb y data a gyflwynir ganddynt ac am wneud taliadau. Ar gyfer dadansoddi'r Asesiad Effaith hwn, rydym yn tybio y bydd cynhyrchwyr yn parhau i ddefnyddio cynlluniau cydymffurfio i goladu ac adrodd am y data angenrheidiol ar gyfer y ddwy elfen o'u rhwymedigaeth.
38. Yn gyffredinol, bydd cynlluniau cydymffurfio yn codi ffi aelodaeth sy'n caniatáu i aelodau ddefnyddio gwasanaethau cydymffurfio. Mae rhai cynlluniau'n codi ffi sy'n cynnwys aelodaeth yn unig, gyda gwasanaethau ychwanegol yn cael eu caffael yn ychwanegol at hyn, tra bydd eraill yn codi ffi uwch, sy'n cynnwys gwasanaeth mwy cynhwysfawr. Yn seiliedig ar drafodaethau gydag arbenigwyr o'r diwydiant yn ogystal â chynlluniau cydymffurfio, rydym ni wedi tybio ffi aelodaeth gyfartalog (yn cynnwys gwasanaethau adrodd am ddata) o £1,500 fesul cynhyrchydd. Caiff y swm hwn ei luosi gyda nifer y cynhyrchwyr sydd â rhwymedigaeth ym mhob blwyddyn i amcangyfrif cyfanswm y costau adrodd am ddata ar gyfer cynhyrchwyr o dan y llinell sylfaen.
39. Er mwyn casglu tystiolaeth ar gostau darparu'r gwasanaethau hyn o dan gynllun diwygiedig fe wnaethom siarad â rhanddeiliaid y diwydiant, gan gynnwys cynlluniau cydymffurfio. Cafwyd rhagor o wybodaeth o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan o ail ymgynghoriad EPR. Er bod cynlluniau cydymffurfio yn gallu rhoi gwybodaeth i ni fel nifer yr oriau/diwrnodau y maent yn eu treulio ar gynhyrchydd cyffredin, yr amser ychwanegol a gymerir i helpu cynhyrchwyr sydd â rhwymedigaeth am y tro cyntaf a'r cyfraddau y maent yn eu codi, mae llawer o'r wybodaeth hon yn sensitif. Felly, rydym wedi defnyddio ystod o amcangyfrifon cyfanredol ar gyfer y costau hyn ac nid ydym wedi enwi'r rhanddeiliaid dan sylw. Gyda'i gilydd, ystyrir bod y rhanddeiliaid hyn yn gynrychioliadol o'r diwydiant.
40. Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn teimlo y byddai gofynion i adrodd am ddata ar daliadau FNC aelwydydd yn ddigon gwahanol i adrodd am ddata ar gyfer amcangyfrif targedau ailgylchu (Hysbysiad Adfer Pecynwaith (PRN)), ac y byddai hyn yn cyfateb i o leiaf yr un costau eto. Hynny yw, byddai angen i gynhyrchwyr dalu o leiaf £1,500 arall i gyfrif am y gofynion newydd.
41. Rydym felly wedi tybio y bydd cynlluniau cydymffurfio yn codi £3,000 ar gynhyrchwyr, ar gyfartaledd, am adrodd am ddata. I gyfrif am ansicrwydd, rydym wedi cynnwys amcangyfrif uchel o £4,000 fesul cynhyrchydd am gostau adrodd am ddata hefyd.

42. O dan y rheoliadau hyn, bydd yn ofynnol i gynhyrchwyr sydd â throsiant o fwy na £1 filiwn a hyd at £2 filiwn ac sy'n cynhyrchu mwy na 25 tunnell a hyd at 50 tunnell o becynwaith gasglu data ar lefel deunydd sylfaenol yn unig yn hytrach nag ar lefel fanylach fel ar gyfer y rhai sydd â rhwymedigaeth o dan ffioedd wedi'u modiweiddio. Bydd yn ofynnol iddynt adrodd am y data hwn pan fydd y prif reoliadau yn dod i rym. Mae hyn yn golygu y bydd eu costau casglu ac adrodd yn fwy cydnaws â'r rhai o dan y system PRN. Mae cynlluniau cydymffurfio wedi ein hysbysu, er y gellir bod eithriadau, fod cynhyrchwyr llai, ar gyfartaledd, yn tueddu i fod â gofynion casglu ac adrodd am ddata llai cymhleth (er enghraifft, oherwydd bod llai o gynnyrch) ac felly'n wynebu costau is. Yn seiliedig ar y trafodaethau hyn, rydym wedi defnyddio amcangyfrif o £1,000 fel y gost gyfartalog i'r cynhyrchwyr hyn.
43. I gyfrifo cyfanswm costau casglu ac adrodd am ddata ar gyfer cynhyrchwyr o dan y cynllun EPR ar gyfer pecynwaith, mae'r costau hyn yn cael eu lluosio gan nifer y cynhyrchwyr, sy'n cynnwys marchnadoedd a chynhyrchwyr ar-lein sydd â rhwymedigaeth am y tro cyntaf yn sgil gostwng y de minimis.
44. Er mwyn cefnogi busnesau i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau adrodd hyn, mae canllawiau ar yr hyn a fyddai'n dystiolaeth dderbyniol ofynnol i wahaniaethu rhwng y gwahanol fathau o gategoriâu pecynwaith yn cael eu cyhoeddi gan rheoleiddwyr amgylcheddol pedair cenedl y DU. I ategu hyn ymhellach, cynhelir cyfres o ddigwyddiadau ymwybyddiaeth a hyfforddiant i fusnesau gynorthwyo cydymffurfiaeth.

Cost yng Nghymru

45. Fel y dywedwyd ym mharagraff 22, nodwyd bod gan 62 o gynhyrchwyr yng Nghymru sydd â throsiant o fwy na £1 filiwn a hyd at £2 filiwn ac sy'n cynhyrchu mwy na 25 tunnell a hyd at 50 tunnell o becynwaith. Bydd gofyn i'r cynhyrchwyr hyn adrodd ar lefel deunydd sylfaenol, gyda chost (a amcangyfrifwyd Asesiad Effaith y DU) o £1,000. Felly amcangyfrifir mai £62,000 yw cyfanswm y gost i'r holl fusnesau sydd â rhwymedigaeth am y tro cyntaf yn 2023.
46. Yn ogystal, amcangyfrifir bod 250 o fusnesau yng Nghymru sydd eisoes â rhwymedigaeth, ond a fydd bellach angen casglu ac adrodd am ddata ar lefel fanylach. Yn seiliedig ar y costau y Asesiad Effaith y DU, mae'r busnesau hyn yn wynebu cost ychwanegol o rhwng £1,500 a £2,500 (cost o £3,000 - £4,000 ar gyfer y gofynion newydd llai'r £1,500 y maent yn ei dalu eisoes). Mae hyn yn rhoi cyfanswm cost ychwanegol o £375,000 i £625,000 i'r busnesau hyn yn 2023.
47. Amcangyfrifir bod cyfanswm y gost ychwanegol i fusnesau yng Nghymru yn 2023 rhwng £437,000 a £687,000.

Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder

48. Bydd yr is-ddeddfwriaeth ganlynol i gyflwyno'r cynllun EPR yng Nghymru yn cynnwys troseddau, sancsiynau a dirwyon am beidio â chydymffurfio â threfniadau adrodd am ddata.
49. O dan y cynllun EPR ar gyfer pecynwaith, bydd gofyn i gynhyrchwyr gasglu ac adrodd am ddata o 2023, er mwyn llywio'r broses o gyfrifo ffioedd yn 2024.
50. Fel y gellir casglu ac adrodd am ddata o 2023 ymlaen bwriedir i Reoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023 ddod i rym ym mis Gorffennaf 2023. Bydd y rheoliadau hyn yn cael eu diddymu a'u disodli gan y prif Offeryn Statudol pan ddaw i rym. Unig bwrpas y rheoliadau casglu ac adrodd am ddata yw sicrhau y gellir casglu data er mwyn llywio'r gwaith o gyfrifo ffioedd cynhyrchwyr ar gyfer cyflwyno'r cynllun newydd.
51. Mae Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder (JSII) wedi'i gwblhau ar gyfer y rheoliadau hyn ac nid oes disgwyl i Reoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023 gael bron unrhyw effaith ar y system gyfiawnder yng Nghymru. Yn seiliedig ar hyn, nid yw'r JSII wedi cael ei anfon at y Weinyddiaeth Gyfiawnder am sylw.
52. Mae Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder (JIA) yn cael ei baratoi hefyd ar gyfer y cynllun yn ei gyfanrwydd ar sail y DU gyfan. Bydd hwn yn cynnwys asesiad o'r gost o roi prosesau llysoedd ar waith i ymdrin â throseddau newydd sy'n cael eu creu gan y cynllun, a fydd yn cynnwys dosraniad o'r costau yng Nghymru. Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder hwn yn cael ei gwblhau cyn y bydd y rheoliadau DU gyfan sy'n rhoi'r prif gynllun ar waith yn cael eu gosod.

Asesiad Effaith Integredig

53. Mae crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig ar gael yn:
<https://www.llyw.cymru/estyn-cyfrifoldebau-cynhyrchwyr-deunyddiau-pacio-0>

Y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Adnoddau a Gwastraff

54. Mae'r ddeddfwriaeth hon o fewn cwmpas y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Adnoddau a Gwastraff.